



Gwasanaeth Tân ac Achub  
De Cymru  
South Wales  
Fire and Rescue Service

**Ymunwch â'n tîm i wneud De Cymru'n ddiogelach drwy leihau risg.**

**Mae Gwasanaeth Tan ac Achub De Cymru'n recriwtio ar gyfer Rheolwr Gorsaf (A) gyda'r System Ddyletswydd Gyflawn (SDdG) ar hyn o bryd**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yw un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub (GTA) mwyaf, perfformiad uchel o fewn y DU, gan wasanaethu 1.6 miliwn o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol sy'n ymestyn o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Rydym wedi meithrin enw rhagorol wrth ddarparu ein gwasanaethau gan gynnwys ymateb i ddigwyddiadau brys ac ystod drawiadol o fentrau ataliol. Mae GTADC wedi ymrwmo i wneud ein cymunedau y lleoedd mwyaf diogel i fyw, gweithio ac ymweld â nhw, trwy ganolbwyntio ar amddiffyn cymunedau, denu a datblygu ein pobl, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, wrth gyflawni gwelliant sefydliadol.

Mae'r Gwasanaeth ar hyn o bryd am benodi Rheolwyr Gorsaf (A) gyda'r System Dyletswydd Gyflawn (SDdG) a fydd yn dangos agwedd frwdfrydig a chynhwysol at arwain ardal Wasanaeth fawr, wrth gynnal gwerthoedd ein Gwasanaeth:



Bydd y swydd hon yn gyfle i ymgeiswyr llwyddiannus wella diwylliant a gwerthoedd y Gwasanaeth Tân ac Achub trwy ddarparu arweinyddiaeth orsaf, tîm a rheolaeth effeithiol gan hefyd ymuno â'r sefydliad i gyfrannu at ei drawsnewidiad newid diwylliant cyfredol. Cewch weld y map rôl ar gyfer Rheolwr Gorsaf yma:

[https://www.fbu.org.uk/sites/default/files/publications/rolemaps\\_booklet\\_final\\_njc9-05.pdf](https://www.fbu.org.uk/sites/default/files/publications/rolemaps_booklet_final_njc9-05.pdf)

I wneud cais am y rôl hon, dylai ymgeiswyr ddarllen y meini prawf cymhwysedd canlynol yn llawn ac wedyn ymateb yn fanwl i'r 5 maen prawf a amlinellwyd ar gyfer llunio rhestr fer trwy atodi dogfen i'w cais ar-lein. Dylid llenwi ffurflenni cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrru trwy law ein gwefan: <https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/>. Yn ystod y broses anogir ymgeiswyr i wirio eu holl ffolderi e-bost am ddiweddariadau a gynhyrchir gan y system. Os oes angen fersiwn papur, cysylltwch drwy law e-bost: [personel@decymru-tan.gov.uk](mailto:personel@decymru-tan.gov.uk). **NID YDYM YN DERBYN CV FEL RHAN O'R CAIS, LLENWCH Y CAIS AR-LEIN YN LLAWN LLWYTHWCH I FYNY EICH MEINI PRAWF AR GYFER Y RHESTR FER YN YR ADRAN TYSTIOLAETH GEFNOGOL DEFNYDDIO'R TEMPLED A DDARPERIR.**

**Ymgeiswyr allanol** - Sylwch fod penodiadau i'r rôl hon yn amodol ar gyflawni gwiriad Manwl Rhestr(au) Gwaharddedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Sylwch y bydd y gwiriad hwn yn nodi unrhyw euogfarnau neu rybuddion sydd wedi darford a heb ddarford. Cyn i unrhyw gynigion ffurfiol gael eu gwneud bydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol.

**Dyddiad Cau - 12:00yp ganol dydd Dydd Llun y 15<sup>fed</sup> o Orffennaf 2024**

**Cynhelir cyfweiliadau yn ystod yr wythnos yn cychwyn 09/09/2024**

## MEINI PRAWF CYMHWYSTER:

Rhaid i ymgeiswyr allu dangos tystiolaeth o'r meini prawf canlynol:

1. Rheolwr Gwylfa System Dyletswydd Gyflawn cymwys gyda phrofiad profedig **NEU** Reolwr Gorsaf a gyflogir mewn Gwasanaeth Tân ac Achub gydag awdurdod lleol o fewn y DU.
2. Llwyddiant yn y Prawf Technegol i Reolwyr Canol gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru **NEU** Dystysgrif Lefel 4 y Sefydliad Peirianeg Tân (IFE) mewn Gweithrediadau Gwasanaeth Tân a Rheoli Digwyddiad **NEU** Gymhwyster Cyfwerth.
3. Llwyddiant mewn Rheoli Digwyddiad Canolradd Gwobr Lefel 4 Sgiliau er Cyfiawnder (ICL2) **NEU** barodwydd i gymryd rhan mewn asesiad ICL2 fel rhan o'r broses ddethol ac ymrwymiad i basio ICL2 gyflawn o fewn 6 mis o ddechrau yn rôl Rheolwr Gorsaf.
4. Lleiafswm o 12 mis o brofiad fel Rheolwr Goruchwylio mewn gorsaf weithredol gan gynnwys arweinyddiaeth gwylfa a rheoli digwyddiadau.
5. Gallu dangos profiad addas o ddysgu o fewn maes arweinyddiaeth a rheolaeth ar lefel Rheolwr Canol (gall ymgeiswyr mewnol ddangos tystiolaeth o hyn yn y Llwybr 'Arwain y Swyddogaeth') **NEU** ymrwymiad i gwblhau llwybr arweinyddiaeth o fewn 6 mis ar ôl cael eich penodi yn Rheolwr Gorsaf a chyn cyflwyno portffolio Datblygu i Fod yn Gymwys.

## GOFYNION Y RHESTR FER:

Nodwch mewn dogfen Word sut rydych chi'n bodloni pob un o'r 5 maes meini prawf canlynol ar gyfer y rhestr fer mewn dim mwy na 300 gair ar gyfer pob maen prawf (cyfanswm o 1500 gair).

1. **Cymhwysedd** - Nodwch sut yr ydych yn bodloni gofynion y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y rôl hon.
2. **Effaith Bersonol** - Nodwch sut rydych wedi creu diwylliant lle mae lles unigolion a thimau yn flaenoriaeth a lle mae systemau ar waith gyda chi i sicrhau bod y timau rydych yn eu harwain yn ymdopi.
3. **Arweinyddiaeth Eithriadol** – Nodwch sut rydych chi'n gwerthfawrogi eich tîm a sut rydych chi'n gwneud y gorau o'u sgiliau a'u cryfderau amrywiol.
4. **Darparu Gwasanaeth** – Nodwch sut yr ydych wedi datblygu a gweithredu datrysiadau meddylgar neu argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac adborth o ffynonellau mewnol ac allanol.
5. **Effeithiolrwydd Sefydliadol** – Nodwch sut yr ydych yn annog ac yn ymateb i gael eich herio a sut yr ydych yn dangos eich bod yn barod i addasu eich ffordd o feddwl o ganlyniad i wybodaeth newydd neu dystiolaeth well.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam llunio rhestr fer yn cael y cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar, a chwestiynau cyfweiliad). Bydd trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gallant gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Rydym yn credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac yn annog ceisiadau o bob sector o fewn y gymuned.



